# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
# Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru

6 Awst 2013

Annwyl Carl

**Cynlluniau Datblygu Lleol - amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd**

Yn gynharach eleni, buom yn edrych a fyddai'n ddichonadwy, ar lefel ymarferol, i Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru gynhyrchu amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd a oedd yn ddigon cadarn i'w galluogi i wyro oddi wrth yr amcanestyniadau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru.

Cawsom dystiolaeth gan dri Awdurdod Cynllunio Lleol, Arolygiaeth Gynllunio Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru. Buom hefyd yn gofyn cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y pryd.

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ('y Pwyllgor') ar 17 Ionawr, mynegodd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a roddodd dystiolaeth (Caerffili, Ceredigion a Sir Fynwy) y pwyntiau allweddol a ganlyn:

- Mae'r tueddiadau hanesyddol a ddefnyddir mewn amcanestyniadau (ar sail pum mlynedd) yn cael eu hystyried i fod yn rhy fyr oherwydd gallant gynnwys anghysondebau a byddai'n well ganddynt weld cyfnodau o 10 neu 15 mlynedd yn cael eu defnyddio;
- Mae'r gallu i gynhyrchu tystiolaeth gadarn a chredadwy i gefnogi eu rhagolygon eu hunain yn amrywio ar draws Awdurdodau Cynllunio Lleol, oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau; a
- Mae awydd ar gyfer cynllunio statudol ar lefel ranbarthol. Gallai hyn helpu'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i weithio gyda'i gilydd o ran dosbarthiad tai ac amseriad y Cynlluniau Datblygu Lleol.

Ategwyd y pwynt olaf gan y Grŵp Cynghori Annibynnol yn ei adroddiad ar ddiwygio'r broses gynllunio. Mae'r Grŵp wedi argymell cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol a fyddai'n mynd i'r afael â materion traws-ffiniol gan gynnwys tai.

Yn ei dystiolaeth ar 31 Ionawr 2013, nododd yr Arolygiaeth Gynllunio ei bod yn cyflogi pump o arolygwyr yng Nghymru a'i bod wedi dod â phump arolygwr ychwanegol i mewn o Loegr y llynedd i ddelio â'r llwyth gwaith a oedd yn gysylltiedig ag edrych ar gynlluniau datblygu lleol.

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA
Ffôn | Tel: 029 2089 8639
E-bost | Email:dafydd.elis-thomas@wales.gov.uk
alun.davidson@wales.gov.uk

Yn eu tystiolaeth ar 31 Ionawr ac yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, nododd swyddogion Llywodraeth Cymru yr hyn a ganlyn:

- Datblygir eu hamcanestyniadau aelwydydd ar y cyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol ac fe'u darperir fel man cychwyn i'w cynorthwyo;
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu lefel y ddarpariaeth tai - mae'n darparu'r fframwaith a ddefnyddir wrth lunio Cynlluniau Datblygu Lleol; a
- Mae'r amcanestyniadau presennol yn seiliedig ar ffigurau 2008. Disgwylir amcanestyniadau newydd sy'n seiliedig ar Gyfrifiad 2011 erbyn diwedd 2013. Mae'n bosibl y bydd hyd y cyfnod tuedd hanesyddol yn cael ei gynyddu.

Ar 21 Chwefror 2013, buom yn holi Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y pryd. Roedd yn cydnabod pwysigrwydd amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn y broses cynlluniau datblygu lleol a dywedodd yn glir *er bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth sylfaenol, mater i awdurdodau lleol ydyw wneud eu gwaith eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ac i roi eu ffigurau eu hunain a ddylai adlewyrchu amgylchiadau lleol.*

Roedd y Gweinidog hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio rhanbarthol a rhannu arbenigedd rhwng awdurdodau cynllunio lleol.

Os bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol eisiau defnyddio amcanestyniadau sy'n gwyro oddi wrth amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, rhaid iddynt brofi bod y gwyriad yn cael ei wneud ar sail 'tystiolaeth gadarn a chredadwy', fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Pan gafodd ei holi ar y pwynt hwn, cydnabu'r Gweinidog ar y pryd gymhlethdod y mater hwn a bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn anghytuno ambell waith. Fodd bynnag, dywedodd y gallai'r rhain gael eu datrys drwy drafodaeth.

Rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn **ddichonadwy o safbwynt ymarferol** i Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru gynhyrchu eu hamcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd eu hunain. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn cydnabod ei bod yn broses gymhleth sy'n gofyn am arbenigedd penodol. Byddai dull mwy rhanbarthol lle caiff arbenigedd ei gronni a'i rannu, yn ein barn ni, yn cryfhau gallu rhai awdurdodau lleol i ddatblygu eu hamcanestyniadau eu hunain, os byddent yn dymuno gwneud hynny.

Cyflwynwyd y ddadl inni fod y cyfnod tuedd hanesyddol o bum mlynedd a ddefnyddir fel sail ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd yn rhy fyr. Rydym yn credu bod hwn yn bwynt sy'n haeddu ystyriaeth bellach gan Lywodraeth Cymru.

Felly, rydym yn gwneud dau argymhelliad:

**Argymhelliad 1:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r camau y gall eu cymryd i gryfhau gallu awdurdodau cynllunio lleol i ddatblygu eu hamcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd eu hunain, gan roi sylw arbennig i unrhyw gyfleoedd a allai godi o ganlyniad i ddull rhanbarthol fwy strategol (fel yr argymhellodd y Grŵp Cynghori Annibynnol yn ei adroddiad ar ddiwygio'r broses gynllunio). Dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd â'r dull cydweithredol rhanbarthol drwy'r Papur Gwyn a'r Bil Cynllunio drafft erbyn diwedd 2013 ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch i ba raddau y gall awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu eu hamcanestyniadau 'cadarn a chredadwy' eu hunain erbyn diwedd 2014.


**Argymhelliad 2:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i weld a oes camau y gall eu cymryd i gryfhau'r sail ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ystyried a fyddai defnyddio amserlen

hirach fel sail i amcanestyniadau yn eu gwneud yn fwy cadarn. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar ei chanfyddiadau erbyn diwedd 2014.

Wrth ystyried yr argymhellion hyn, rydym yn gofyn i chi ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn sydd ar gael ar ein tudalennau ar y wefan.

Diolch i chi am ystyried ein casgliadau a'n hargymhellion ac rwy'n edrych ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



**Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC**
Cadeirydd – Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd